**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol - y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

3 Awst 2023

## Maes Awyr Caerdydd

Hoffwn ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 22 Mehefin 2023.

Rwy'n rhestru'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod, ynghyd â'r meysydd y byddem yn croesawu gwybodaeth ychwanegol amdanynt neu ddiweddariad yn eu cylch, fel y bo'n briodol.

### Y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro a thargedau cysylltiedig

Yn fy llythyr dyddiedig 6 Ebrill 2023, gofynnais ichi egluro pam nad oedd eich diweddariad chwe mis ynghylch Maes Awyr Caerdydd, dyddiedig 21 Mawrth 2023, yn cynnwys unrhyw wybodaeth am y targed i Faes Awyr Caerdydd ymrwymo i ddod yn garbon niwtral erbyn 31 Mawrth 2023. Yn eich ymateb, gwnaethoch nodi, "oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni mae'n heriol iawn i unrhyw faes awyr rhanbarthol gyflawni'r amcan hwn erbyn 2050 ar draws ei holl weithrediadau".

Dywedoch wrth y Pwyllgor y gall Llywodraeth Cymru ddiwygio'r targedau yn y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro, gan nodi nad oedd y targedau newid hinsawdd wedi'u rhoi i'r neilltu. Yn hytrach, gwnaethoch awgrymu bod yr amserlen ar gyfer eu cyrraedd wedi newid.

Byddem yn croesawu gwybodaeth am y broses ar gyfer cytuno ar newidiadau i'r Cynllun Achub ac Ailstrwythuro (y Cynllun) a'r targedau sydd ynddo, gan gynnwys pwy sydd yn cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau, yn ogystal â sut mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn y broses hon mewn perthynas â'r targedau newid hinsawdd. Byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am y diwygiadau i'r targedau

newid hinsawdd y mae Llywodraeth Cymru a Maes Awyr Caerdydd wedi cytuno arnynt, gan gynnwys unrhyw fesurau newydd a dyddiadau targed.

Fe wnaethom hefyd ofyn am berfformiad Maes Awyr Caerdydd yn erbyn rhai o'r targedau eraill yn y Cynllun, fel y targed ar gyfer proffidioldeb ac Enillion Cyn Llog, Treth, Dibrisiant ac Amorteiddio. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth bod yn rhaid dehongli rhai o'r targedau a bod angen rhagor o wybodaeth i'w hesbonio. Rydym yn croesawu eich cadarnhad y byddwch yn gliriach ynghylch y targedau mewn gohebiaeth yn y dyfodol. Hoffem i chi adlewyrchu hyn yn eich diweddariad chwe mis nesaf i'r Pwyllgor ynghylch Maes Awyr Caerdydd.

**Adolygiadau**

Yn eich diweddariad chwe mis diwethaf (Mawrth 2023), gwnaethoch nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Maes Awyr i ddeall effaith y penderfyniad gan Wizz Air i dynnu'n ôl o'r maes awyr ar yr amserlen ar gyfer hunangynaliadwyedd. Gwnaethoch hefyd nodi bod Gweinidogion wedi gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Maes Awyr i drafod mesurau lliniaru posibl, o ystyried effaith chwyddiant ar y gost o gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol a'r pwysau canlyniadol ar y gyllideb buddsoddi cyfalaf. Gwnaethoch nodi rhai o'r ystyriaethau perthnasol ar 22 Mehefin 2023, ond byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am ganfyddiadau'r adolygiadau hyn ac unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad iddynt.

Mewn sesiwn dystiolaeth, dywedodd swyddogion Maes Awyr Caerdydd wrth y Pwyllgor fod cost y sganwyr uwch-dechnoleg newydd y mae Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd awyr eu gosod erbyn 2024 yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro. Gwnaethoch nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Maes Awyr Caerdydd i ddeall y pwysau ychwanegol o ran cost ac y byddai cyngor ffurfiol yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru maes o law. Byddem yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r cyngor hwn i Weinidogion Cymru.

**Cadeirydd WGC Holdco**

Ar ôl penderfynu y byddai Cadeirydd WGC Holdco yn parhau'n uwch was sifil, dywedoch wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am geisiadau ar gyfer y rôl gan staff ar lefel cyfarwyddwr nad oeddent yn adrodd i chi. Byddem yn croesawu diweddariad unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r broses a dewis yr ymgeisydd llwyddiannus. Byddem hefyd yn croesawu diweddariad unwaith y bydd y cyfarwyddwyr anweithredol newydd wedi'u penodi.

Cyfalaf Gweithio WGC Holdco

Nodwn yr adroddiad ar benderfyniad ar 14 Mehefin 2023, a nododd fod y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd wedi cymeradwyo cyfalaf gweithio ychwanegol ar gyfer WGC Holdco Ltd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon er mwyn darparu ar gyfer ei wariant archwilio statudol, cyfreithiol ac o ran llywodraethiant. Cafwyd adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn nodi ei bod wedi darparu

£15,000 yn ychwanegol i WGC Holdco ar gyfer 2023-24, gan ddweud bod hyn wedi galluogi'r cwmni i gyflawni ei ymrwymiadau llywodraethu penodol ac i ymgymryd â swyddogaethau er mwyn monitro buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y maes awyr, megis cost archwilio'r cyfrifon blynyddol, gosod y cyfrifon yn Nhŷ'r Cwmnïau a chyflwyno ffurflenni treth i CThEM. Mae'r swm hwn hefyd yn caniatáu ar gyfer cyngor cyfreithiol allanol i gefnogi gwaith WGC Holdco ar ran Gweinidogion Cymru.

Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y camau a arweiniodd at y penderfyniad hwn a'r broses sydd ar waith i gytuno ar gyllid ychwanegol.

## Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru

Ar 22 Mehefin 2023, gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am y goblygiadau ariannol yn sgil penderfyniad Llywodraeth Cymru i derfynu'r contract gydag Eastern Airways yn gynnar. Byddem yn croesawu crynodeb o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad i derfynu'r Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru a chau Maes Awyr Ynys Môn, gan gynnwys y grant ychwanegol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn a gymeradwywyd gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, a oedd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar benderfyniad Llywodraeth Cymru ar 30 Mawrth 2023.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 1 Medi 2023.

Yn gywir

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.